Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:	**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**
Dyddiad:	**Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2012**
Amser:	**09:15 - 10:45**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_17_01_2012&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:	**Darren Millar (Cadeirydd)** **Mohammad Asghar (Oscar)** **Mike Hedges** **Julie Morgan** **Gwyn R Price** **Jenny Rathbone** **Aled Roberts** **Leanne Wood**
Tystion:	**Huw Vaughan Thomas, Auditor General for Wales, Wales Audit Office** **Matthew Mortlock, Performance Specialist. WAO**
Staff y Pwyllgor:	**Tom Jackson (Clerc)** **Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1. 1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Diolchodd y Cadeirydd i Andrew RT Davies am ddirprwyo ar ei ran fel Cadeirydd dros dro yn ystod ei gyfnod o absenoldeb.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Tom Jackson, sef Clerc newydd y Pwyllgor, i'r cyfarfod, a diolchodd i Alun Davidson, y Clerc blaenorol.

2. Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y cynnydd o ran cyrraedd safon ansawdd tai Cymru

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Matthew Mortlock, Arbenigwr Perfformiad, i'r cyfarfod.

2.2 Cafodd Aelodau'r Pwyllgor eu briffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef *Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.*

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Eitemau 4 i 7.

4. Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru'

4.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru'.

5. Adroddiad drafft y Pwyllgor ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai

5.1 Gwnaeth aelodau'r Pwyllgor sylwadau ar adroddiad drafft y Pwyllgor ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai.

5.2 Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i ystyried adroddiad diwygiedig a gaiff ei anfon atynt ar ffurf e-bost.

6. Ystyried y dystiolaeth a gafwyd ynghylch yr adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod sut i ymdrin ag adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'.

7. Busnes y Pwyllgor yn y dyfodol

7.1 Bu aelodau'r Pwyllgor yn trafod blaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer tymor y gwanwyn 2012.

8. Papurau i'w nodi

8.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.